**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: LF/CS/0583/14

Alun Ffred Jones AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mehefin 2014

Anwyl Alun Ffred

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 9 Mehefin lle rydych yn codi nifer o gwestiynau ar ôl i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Cyfiawnder Cymdeithasol a Llysoedd yn ei gyfarfod ar 5 Mehefin. Mae fy ymateb i'r cwestiynau hynny wedi'i nodi isod.

*C1. Nodwch amserlen y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gwelliannau y mae'r Memorandwm hwn yn ymwneud â hwy?*

Pan cyflwynwyd y Bil ar 5 Chwefror 2014 roedd yn cynnwys y ddarpariaeth sy'n ymwneud â chynigion adran 288 yn Lloegr yn unig. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried a oedd yn dymuno i'r ddarpariaeth gael ei hestyn i gynnwys Cymru. Ynghanol mis Chwefror hysbyswyd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol na ddylai'r ddarpariaeth ddod i rym yng Nghymru gan nad oedd digon o wybodaeth gan Lywodraeth y DU am lefel a hyd a lled yr ymgynghoriad yng Nghymru. Cafodd rhagor o wybodaeth ei darparu am y mater hwn, a phan oeddem yn fodlon ar ddechrau mis Ebrill, cytunwyd y dylid estyn y cynnig i Gymru ac y byddai'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod. Yna, cawsom wybod bod Llywodraeth y DU yn cynnig gwelliannau perthnasol pellach a gyflwynwyd ar 6 Mai. Gosodwyd y Memorandwm gennym ar 15 Mai a hysbyswyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder o hynny.

*C2. Yn ôl eich dealltwriaeth chi, a oedd wastad yn fwriad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno'r darpariaethau hyn yng Nghymru a Lloegr? Os oedd hynny'n fwriad, sut a phryd y bu ymgynghori â Llywodraeth Cymru?*

O'r ohebiaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac Is-ysgrifennydd Seneddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, roeddem yn deall ar ddechrau'r broses bod Llywodraeth y DU yn fodlon cyflwyno'r darpariaethau hyn naill ai yn Lloegr yn unig, neu yng Nghymru a Lloegr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Gofynnnwyd yn benodol i Lywodraeth Cymru a oedd am i'r darpariaethau ddod i rym yng Nghymru drwy'r Bil. Fel yr eglurwyd uchod, ein hymateb gwreiddiol oedd nad oeddem am i hyn ddigwydd, gan nad oeddem yn credu bod gennym ddigon o wybodaeth am hyd a lled yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y mater yng Nghymru.

*C3. Os mai bwriad gwreiddiol Llywodraeth y DU oedd eu cyflwyno yn Lloegr yn unig, fel y nodwyd yn y Bil gwreiddiol a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2014, pam a phryd y gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r darpariaethau gael eu hymestyn i Gymru?*

Yn dilyn y trafodaethau gwreiddiol y cyfeiriwyd atynt uchod, daeth Llywodraeth y DU atom i'n hysbysu eu bod o'r farn y dylai'r darpariaethau fod yn gymwys i Gymru yn ogystal â Lloegr. Roedd yn well ganddynt ddull unffurf o ymdrin â rheolau ar gyfer heriau'r Uchel Lys mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio yn y llysoedd yn y ddwy wlad. Roeddent hefyd o'r farn bod y cynigion yn ymwneud â pholisi nad oedd wedi'i datganoli.

Yn ein barn ni, mae'r cynigion yn ymwneud â'r system gynllunio ac felly mae'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Wedi dweud hynny, roeddem yn gweld y ddadl o blaid estyn y cynigion i Gymru, ac roeddem yn barod i gytuno iddynt ar yr amod y gallem weld tystiolaeth ddigonol o'r ymgynghoriad ar y cynigion yng Nghymru. Ar ôl i'r wybodaeth ychwanegol hon ddod i law, cytunwyd i estyn y darpariaethau i Gymru, ac rydym wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn unol â'n barn bod y cynigion yn dod o fewn cymhwysedd ddeddfwriaethol y Cynulliad.

Yn gywir

Carl

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration